

# PLAID WERDD CYMRU MANIFFESTO 2021

AR AMDDIFFYFN ANIFEILIAID



# O FFERMIO DIWYDIANNOL A'R RHAGLEN DIFA MOCH DAEAR I FRIDIO CŴN BACH A GWARCHOD BIOAMRYWIAETH, DIM OND Y GWYRDDION SY'N DEALL YR ANGEN AM WEITHREDU YNG NGHYMRU I ACHUB NIFEROEDD MAWR O ANIFEILIAID O FYWYDAU O DDIODDEFAINT.

MAE'R GWYRDDION, YN EU HANFOD, YN BLAID DRUGAROG A GOFALGAR AC MAE HYN YN YMESTYN AT EIN PERTHYNAS AG ANIFEILIAID. RYDYM YN DYCHMYGU BYD LLE NA FYDDWN NI'N CAMFANTEISIO DDIM RHAGOR AR ANIFEILIAID, A LLE BYDD DEDDFWRIAETH YN RHOI'R AMDDIFFYNIAD Y MAE ANIFEILIAID YN EI HAEDDU.

FE WNAIFF GWYRDDION SEFYLL O BLAID ANIFEILIAID, A BYDDWN YN LLAIS DROS YR HOLL ANIFEILIAID YNG NGHYMRU. FE WNAWN NI HYBU A CHEFNOGI SYMUDIAD I FFWRDD O DDEIETAU WEDI'U SEILIO'N BENNAF AR GIG A CHYNHYRCHION ERAILL A DDAW O ANIFEILIAID.

## CYFFREDINOL OS CAWN EIN HETHOL I LYWODRAETH CYMRU, FE WNAIFF Y GWYRDDION:

- Benodi Comisiynydd newydd i Lywodraeth Cymru dros Fioamrywiaeth ac Amddiffyn Anifeiliaid i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd y Comisiynydd yn datblygu tasglu a set o gynlluniau i adfer ecolegau, tirweddau, anifeiliaid a phlanhigion Cymru. Bydd y Comisiynydd hefyd yn cryfhau cyfreithiau lles anifeiliaid i sicrhau bod anifeiliaid amaeth ac anifeiliaid anwes fel ei gilydd yn mwynhau safonau lles uchel o ddechrau tan ddiwedd eu hoes.
- Cydnabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yn y gyfraith. Mae'r gynsail sylfaenol hon yn hanfodol er mwyn amddiffyn statws a lles anifeiliaid ac yn gam cyntaf tuag at arfer orau ar gyfer pob rhywogaeth.
- Ychwanegu lles anifeiliaid at y cwricwlwm ysgol. Gellir ymgorffori lles anifeiliaid i mewn i amryw o feysydd dysgu, gan sicrhau dealltwriaeth o anifeiliaid fel bodau ymdeimladol o blentyndod ymlaen.

## ANIFEILIAID SY'N CAEL EU FFERMIO

Mae miliynau o anifeiliaid yng Nghymru'n byw bywydau byr, creulon mewn ffermydd diwydiannol llwm.

Mae ffermio diwydiannol yn ffordd aneffeithlon y tu hwnt o gynhyrchu bwyd. Bydd yn difrodi'r amgylchedd ac yn trin anifeiliaid fel peiriannau, nid fel bodau ymdeimladol.

## MAE GWYRDDION YN GWRTHWYNEBU FFERMIO DIWYDIANNOL YN LLWYR AC FE WNAWN NI BWYSO I GAEL:

- Teledu cylch caeedig gorfodol ym mhob lladd-dy yng Nghymru fel sydd bellach yn gyfraith yn Lloegr.
- Gwahardd lladd anifeiliaid fferm heb eu taro'n anymwybodol.
- Cyflwyno safonau gorfodol ar gyfer bwyd a ddarperir yn y sector gyhoeddus gan gynnwys cyrchu'n lleol a safonau uchel o ran lles anifeiliaid a dewisiadau figanaidd a llysieuol o ansawdd da.
- Mabwysiadu safonau cyfreithiol uwch ar gyfer anifeiliaid fferm, gan gynnwys mynediad gorfodol a sylweddol at bori.
- Mesurau lles anifeiliaid uwch i'w gwobrwyo drwy daliadau cymorth i ffermydd.
- Rheolau mwy caeth ar gludo anifeiliaid a diwedd gwirioneddol ar allforiadau byw.
- Gwahardd mewnforio foie gras ac unrhyw gynnyrch sy'n ganlyniad i fwydo drwy orfodaeth.
- Tynhau'r rheolau ar werthu a defnyddio tân gwyllt swnllyd a hefyd llusernau awyr.
- Bwyd a fewnforir i fod wedi'i ffermio i'r un safonau (neu rai uwch) â'r rhai i gynhyrchwyr yng Nghymru.
- Dod i lawr yn drwm yn erbyn caniatâd gan awdurdodau cynllunio i unedau dofednod ar raddfa fawr yng nghefn gwlad Cymru gan fod y Blaid Werdd wedi ymrwymo i ddiddymu fesul cam bob ffurf o ffermio diwydiannol.
- Cefnogaeth i ddeietau wedi'u seilio ar blanhigion, gan gynnwys opsiwn planhigol yn cael ei gynnig ar bob bwydlen yn y sector gyhoeddus fel arfer safonol.

## PROFION AR ANIFEILIAID

Mae Gwyrddion am weld diwedd ar bob arbrofi ar anifeiliaid, ac fe alwn ni am strategaeth sy'n sicrhau dargyfeirio cyllid ymchwil i ffwrdd o fodolau salwch mewn anifeiliaid a thuag at ddulliau modern gan gynnwys modelau ffugddynol, modelau mecanyddol a chyfrifiadurol, delweddu micro-ddogni, sglodion DNA, sglodion microhylifeg a'r defnydd o feinwe ddynol, sy'n cynnig cyfleoedd mwy i iacháu salwch a gwella diogelwch cynhyrchion.

## FE WNAIFF GWYRDDION GEFNOGI UNRHYW GAMAU SY'N LLEIHOU ARBROFION AR ANIFEILIAID.

Yn enwedig, dylid gweithredu i wneud y canlynol:

- Rhoi stop ar arbrofion anfeddygol.
- Rhoi stop ar y defnydd o brimatiaid, cathod a chŵn mewn ymchwil.
- Rhoi stop ar fewnforio primatiaid annynol i'w defnyddio mewn labordai yng Nghymru, fel cam tuag at roi diwedd ar ymchwil ar brimatiaid.
- Rhoi stop ar y defnydd o gyfreithiau cyfrinachedd o'r oes a fu i gelu gwybodaeth am arbrofion ar anifeiliaid a sicrhau bod data'n cael ei rannu.
- Sicrhau na fydd ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi cwmnïoedd sy'n cael gwneud eu harbrefion ar anifeiliaid drwy gontractau allanol mewn gwledydd eraill.
- Darparu mwy o ariannu ar gyfer ymchwilio a datblygu dulliau ymchwil heb anifeiliaid.

## ANIFEILIAID ANWES

Mae anifeiliaid anwes yn cael eu masnachu fwyfwy dros ffiniau gwledydd, ond eto ar lefel genedlaethol y mae lles anifeiliaid anwes yn cael ei reoleiddio. Gall Senedd Cymru wella safonau lles drwy dynhau rheolau yng Nghymru.

## FE WNAIFF GWYRDDION GEFNOGI MESURAU I WNEUD Y CANLYNOL:

- Deddfu i sicrhau bod Cymru'n ymdrin ag anifeiliaid crwydr mewn ffordd drugarog, gan ddefnyddio rhaglenni wedi'u seilio ar ysbaddu ac nid difa.
- Trwyddedu bridwyr a pherchenogion cŵn a chathod.
- Cyflwyno gorfodaeth i osod microsglodion mewn cathod.
- Cyflwyno cynllun cofrestru cŵn a fydd yn caniatáu i gŵn gael eu holrhain yn ôl at eu perchnogion yn fwy effeithiol.
- Ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu cŵn bach a chathod bach ifainc heblaw bod y fam yn bresennol.
- Gwahardd mewnfario anifeiliaid ecsotig ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes.
- Trwyddedu llochesau anifeiliaid i sicrhau safonau lles uchel i'r anifeiliaid yn eu gofal.
- Cynyddu'r cosbau i'r rhai sy'n cam-drin anifeiliaid.
- Ymgymryd ag adolygiad o ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwerthu anifeiliaid, gan gynnwys rheoleiddio anifeiliaid a werthir ar-lein.

## ANIFEILIAID MEWN CHWARAEON

Nid yw Gwyrddion yn credu y dylai anifeiliaid gael eu defnyddio mewn unrhyw chwaraeon na ffurf o adloniant sy'n achosi poen a dioddefaint (gan gynnwys gwewyr seicolegol).

Mae Gwyrddion yn llwyr wrthwynebu pob sbort lle caiff anifeiliaid eu lladd.

## GWNAIFF GWYRDDION WEITHIO TUAG AT Y CANLYNOL:

- Cefnogi ailgartrefu anifeiliaid syrcas yn sgil gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.
- Gwahardd defnyddio maglau.
- Gwahardd cewyll i bob aderyn hela.
- Cadw'r gwaharddiad ar hela â chŵn.
- Creu awdurdod rheoleiddio ar gyfer rasio ceffylau a chŵn i orfodi safonau caeth o ran lles anifeiliaid.
- Y gallu i olrhain yn llwyr bob anifail a ddefnyddir mewn chwaraeon.
- Ehangu'r Ddeddf Lles Anifeiliaid i gwmpasu pob gweithgarwch pysgota.

## ANIFEILIAID GWYLLT

Mae anifeiliaid gwyllt yn wynebu llawer o heriadau ar hyn o bryd. Mae argyfwng yr hinsawdd a cholli cynefinoedd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd iddynt oroesi. Mae hyn yn dod ar ben hela a herwela anghyfreithlon gan bobl. Gall Senedd Cymru helpu i amddiffyn anifeiliaid gwyllt drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd a chryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol.

## PE BAEM YN CAEL EIN HETHOL FE WNÂI GWYRDDION Y CANLYNOL:

- Cefnogi'r rhaglen brechu moch daear a gwrthwynebu rhaglen difa moch daear.
- Gwrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer traffordd liniaru'r M4 ar draws gwastadeddau Gwent.
- Cefnogi bod taliadau i ffermydd wedi'u cysylltu ag adnewyddu ecosystemau.
- Gwahardd mewnfario anifeiliaid a ddelir o'r gwyllt.
- Gwahardd cadw anifeiliaid gwyllt a phrimatiaid fel anifeiliaid tŷ.
- Gweithio dros amddiffyniad rhyngwladol cryfach i greaduriaid môr mewn perygl a diwedd ar ladd morfilod yn ein dyfroedd.
- Cefnogi Deddf Bywyd Gwyllt newydd i gydgyfnerthu deddfwriaeth i amddiffyn ein bywyd gwyllt gwerthfawr.

**I DDARLLEN Y MANIFFESTO**

**HWN YN GYMRAEG, EWCH I:**

[https://wales.greenparty.org.uk/  
maniffesto/](https://wales.greenparty.org.uk/maniffesto/)

 **walesgreenparty**

 **@WalesGreenParty**

 **WalesGreenParty**

**Ebost:** [contact@walesgreenparty.com](mailto:contact@walesgreenparty.com)

**[HTTPS://WALES.GREENPARTY.ORG.UK/CY/](https://wales.greenparty.org.uk/cy/)**

Hyrwyddwyd gan Chris Simpson ar ran Plaid Werdd Cymru, y ddau yn The Gate, Stryd Keppoch, Y Rhath, Caerdydd, CF24 3JW.